## Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Fasnachu mewn Pobl

Dyddiad: Dydd Mawrth 12 Mehefin 2018
Amser: 08:15 – 9:15
Lleoliad: Ystafell Gynadledda A (Llawr Gwaelod), Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

**Yn bresennol**

Joyce Watson AC (JW)

Stephen Chapman (SC), Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth, Llywodraeth Cymru

Kim Ann Williamson (KAW), Rheolwr Cynhwysiant ac Ymgysylltu â'r Gymuned, Gwasanaeth Erlyn y Goron - Cymru

David Rowlands AC (DR)

Ian Williams (IW), Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad, David Rowlands AC; Mutale Merrill OBE (MM), Prif Weithredwr BAWSO

Ryland Doyle (RD), ymchwilydd ar gyfer Mike Hedges AC

Rachel Allen (RA), Swyddfa Jeff Cuthbert, y Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Dan Michel (DM), Ditectif Arolygydd, Heddlu De Cymru; Eleri Cubbage, swyddog ymchwil/cyfathrebu ar gyfer Lynne Neagle AC

Madeleine Rees (MR), Swyddfa Jayne Bryant AC

Simon Borja (SB), Cyfarwyddwr Datblygu Prosiect, Cymru Ddiogelach Cyf; Samsunear Ali, Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol, BAWSO

Helena Hunt (HH), Arweinydd Tîm Polisi, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

**Cofnodion y cyfarfod**

Dosbarthodd JW gopïau o'i herthygl ddiweddar ar gaethwasiaeth fodern/masnachu mewn pobl yn y cylchgrawn “The Parliamentarians”.

JW yw Is-gadeirydd Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad.

Dywedodd JW fod y gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghymru yn cael ei arddangos a'i gydnabod ledled y byd.

Nododd JW rai o'r materion sy'n cael eu trafod gan Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad, sef masnachu, anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM), trais rhywiol yn India ac agweddau tuag ato, ac anallu menywod i fod yn berchen ar dir ac eiddo, gan arwain at sefyllfaoedd o anobaith yn eu bywydau.

Dywedodd JW fod datganoli wedi caniatáu i Gymru gael llais. Cyn datganoli, byddai'r cam o benodi cynrychiolydd i grŵp Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad wedi digwydd ar lefel y DU. Mae datganoli wedi caniatáu i Gymru gael ei llais ei hun yn y tirlun rhyngwladol.

Cydnabu JW fod KAW wedi ennill MBE yn ddiweddar am y gwaith a wnaed ganddi o ran mynd i'r afael â masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern.

Gofynnodd JW i'r Grŵp Trawsbleidiol gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2017.

Gofynnodd NP i'r aelodau anfon unrhyw bwyntiau o eglurhad neu awgrymiadau ar gyfer newidiadau ato ar ffurf e-bost yn dilyn y cyfarfod.

Tynnodd JW sylw at wall teipio yn y cofnodion blaenorol a oedd yn ymwneud â gweithwyr yn gweithio 10 awr y dydd, yn hytrach na 10 awr y flwyddyn. Cadarnhaodd NP y byddai'r gwall hwn yn cael ei gywiro.

Yn ôl SC, ers i Gymru gychwyn ar y daith hon, mae mwy o bobl sy'n destun cam-fanteisio yn cael eu hadnabod. Gall y broses o roi pobl o flaen eu gwell gymryd 1-2 flynedd. Mae nifer yr erlyniadau yn parhau i fod yn isel ar hyn o bryd. Cafodd 34 o bobl eu hadnabod fel caethweision yn 2012; yn 2017, y ffigur oedd 193. Mae'r 193 o bobl dan sylw yn cynnwys plant, dynion a menywod. Mae eiriolwyr annibynnol sy'n ymdrin â masnachu mewn plant (ICTA) bellach ar waith yng Nghymru. Mae Cymru yn un o dair ardal yn y DU lle mae'r prosiect hwn, sy'n cael ei ariannu gan y Swyddfa Gartref, yn cael ei dreialu. Mae'r prosiect yn cael ei gynnal mewn partneriaeth â Barnardo's Cymru.

Yn 2016, dim ond pedwar o blant a gafodd eu cyfeirio gan awdurdodau lleol yn sgil y ffaith eu bod yn destun cam-fanteisio. Lansiwyd rhaglen beilot yr eiriolwyr annibynnol ar 30 Ionawr 2017. Ers 30 Ionawr 2017, mae 93 o blant yng Nghymru wedi dod i'r amlwg o dan y rhaglen hon, ac maent yn awr yn cael eu diogelu. Mae 75 y cant ohonynt yn ferched, ac mae 70 y cant ohonynt yn destun cam-fanteisio rhywiol. Mae Barnardos wedi gwneud gwaith gwych. Mae'r holl achosion hyn wedi bod yn rhai argyfyngus. Gall ymchwiliadau fod yn anodd. Defnyddir dull tîm i fynd i'r afael â'r mater hwn, a hynny drwy gydweithio rhwng awdurdodau lleol, yr heddlu a phartneriaid, gan gynnwys cyrff anllywodraethol fel BAWSO, Gwasanaeth Erlyn y Goron, a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu.

Daeth 76 o blant i'r amlwg ym Manceinion Fwyaf ac 84 yn Hampshire. Mae ymchwiliadau'n cael eu cynnal i'r holl achosion hyn.

Eleni, yn y chwarter cyntaf, cyfeiriwyd 53 o bobl at y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM).

Mae mwy o achosion yn destun ymchwiliad ac yn cael eu dwyn gerbron y llys.

Hyd at 2015, nid oedd y drosedd o 'gaethwasiaeth' yn bodoli. Yn wir, nid oedd yn bodoli hyd nes i'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern gael ei chyflwyno. Er y gall achosion ddechrau fel achosion o gaethwasiaeth fodern, gallant arwain at gyhuddiadau o dreisio, gwyngalchu arian, lladrata a throseddau yn ymwneud â chyffuriau. Mae cod wedi'i lunio ar gyfer caethwasiaeth fodern, ac o hyn ymlaen, felly, bydd nifer yr achosion yn glir. Mae Julian Williams, Prif Gwnstabl Gwent, yn cadeirio grŵp ar fygythiadau, sy'n gyfrwng lle mae cynrychiolwyr o feysydd y gyfraith a gorfodi yn dod at ei gilydd, gan roi'r pwyslais ar ymyrraeth a gwneud arestiadau lle bo modd. Yn ddiweddar, gwnaeth y BBC ddarn o ymchwil ar y diwydiant golchi ceir a materion yn ymwneud â cham-fanteisio ar lafur. Mae'r heddlu'n ymgysylltu â'r materion hyn ac yn cymryd camau yn eu cylch, gan gynnwys camau gan Julian Williams.

Mae KAW yn gwneud gwaith gwych o ran sicrhau bod pobl yn cael hyfforddiant. Yn 2014, cafodd tua 2,000 o bobl eu hyfforddi; y llynedd, hyfforddwyd tua 8,000. Mae KAW yn cadeirio grŵp hyfforddi'r DU. Drwy grŵp KAW, cynhaliwyd cynhadledd ardderchog yng Nghymru ym mis Ebrill a oedd yn canolbwyntio ar ymateb y diwydiannau hedfan a lletygarwch i'r materion hyn.

Dosbarthodd SC gopïau o'r cod ymarfer a siaradodd am rai o'r darpariaethau ynddo sy'n ymwneud â'r gofynion o ran cyhoeddi datganiad caethwasiaeth ar wefannau. Y nod yw sicrhau bod pob cadwyn gyflenwi yn rhydd o lafur caethweision. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r cod, a'r gobaith yw y bydd pob awdurdod lleol yn ymrwymo iddo erbyn

diwedd y flwyddyn. Mae rhwng 10 a 12 o awdurdodau wedi ymrwymo iddo'n barod, gan gynnwys Caerdydd. Siaradodd Jeff Cuthbert â'r comisiynwyr heddlu eraill ynglŷn â'r mater hwn. Erbyn hyn, mae pob comisiynydd a phob a heddlu wedi ymrwymo iddo.

Dywedodd IW fod Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r heddlu bellach yn llawer mwy ymwybodol o'r fasnach ffiaidd hon. Serch hynny, roedd yr adroddiad a gyhoeddwyd y llynedd gan yr arolygiaeth ar gaethwasiaeth fodern yn beirniadu'r ffaith nad oedd y rhan fwyaf o heddluoedd y DU wedi cyrraedd y nod yn y maes hwn. Canmolodd yr adroddiad y gwaith a wnaed ym Manceinion Fwyaf, gan ddweud bod gan yr heddlu hwnnw fwy o ymwybyddiaeth ynghylch y materion hyn. Mae'n dda gweld bod mwy o atgyfeiriadau yn cael eu gwneud.

Dywedodd SC fod Manceinion Fwyaf mewn sefyllfa dda adeg cyhoeddi'r adroddiad. Roedd yn un o'r tri heddlu ar y pryd a oedd wedi creu uned Gaethwasiaeth Fodern penodol: yr Heddlu Metropolitan, heddlu Manceinion Fwyaf a heddlu Gorllewin Swydd Efrog. Ers hynny, mae heddluoedd Gwent a Gogledd Cymru wedi creu unedau penodol. Mae mwy o weithgarwch mewn ardaloedd sydd ag unedau penodol yn sgil y ffocws cynyddol ar y materion dan sylw.

Dywedodd SC fod KAW o Wasanaeth Erlyn y Goron, gan gydweithio â'r heddlu, wedi datblygu cwrs tri diwrnod ar gyfer uwch swyddogion ymchwilio, erlynwyr ac eiriolwyr mewn canolfan hydra.

Dywedodd DM fod yr hyfforddiant hwn yn wych ac yn caniatáu i ymarferion chwarae rôl gael eu cynnal. Roedd yr hyfforddiant yn amhrisiadwy yng nghyd-destun un achos a gododd.

Dywedodd IW fod hyn yn digwydd yng ngolwg pawb, mewn busnesau golchi ceir.

Dywedodd RA na chafodd yr holl heddluoedd eu harolygu gan yr arolygiaeth. Bydd yr holl heddluoedd yn cael eu harolygu eleni.

Dywedodd RA fod heriau'n bodoli o ran erlyniadau.

Dywedodd DR, pe bai'r holl asiantaethau'n cymryd rhan, a phe bai'r holl asiantaethau yn targedu'r diwydiant golchi ceir, byddai'n hawdd eu dal. Mae'r personél yn y busnesau golchi ceir hyn yn newid yn rheolaidd.

Dywedodd SC fod gan Cyllid a Thollau EM adnodd penodol ar gyfer ymdrin â'r mater hwn yng Nghymru. Mae gweithgarwch yn digwydd ar y cyd at ddibenion mynd i'r afael â'r mater hwn ac arestio pobl. Drwy gydweithio â'r heddlu, cafwyd yr erlyniad cyntaf yng Nghymru a Lloegr yn Abertawe tua mis yn ôl. Yn sgil hynny, aeth dau ddyn i'r carchar.

Dywedodd RA fod PCC, JC a JW wedi cynnal digwyddiad llwyddiannus iawn yn y Senedd ym mis Ionawr. Cododd y digwyddiad ymwybyddiaeth o'r hyn y mae caethwasiaeth fodern yn ei olygu heddiw. Bydd PCC a JC yn cydweithio'n agos â KAW i ddysgu mwy am y sefyllfa yng Ngwent ac i'w thrafod, ac i ystyried hefyd pa waith ychwanegol y mae angen inni ei wneud ar sail partneriaeth yn y dyfodol.

Dywedodd RA fod gwaith yn cael ei wneud gyda chymunedau a mudiadau ffydd mewn perthynas â thri digwyddiad yn ddiweddarach yn y flwyddyn i helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Dywedodd RA fod dull cydweithredol yn cael ei fabwysiadu er mwyn sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar y cod ymarfer.

Dywedodd MM fod BAWSO, Cymru Ddiogelach a Llwybrau Newydd yn helpu goroeswyr a dioddefwyr sydd mewn perygl o gaethwasiaeth, gan gynnwys darparu llety a gwasanaethau allgymorth. Gallai'r broses o gyd-gynhyrchu digwyddiadau gyda goroeswyr fod yn ffordd allweddol o'u cynnal.

Cytunodd RA â MM, a dywedodd y gall fod yn anodd weithiau i oroeswyr godi eu llais, gan ei gwneud hi'n anodd iddynt siarad ar y llwyfan. Dyma beth ddigwyddodd yn y seminar ym mis Ionawr.

Dywedodd JW fod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn cynnwys awgrym bod canolfan yn cael ei chreu er mwyn caniatáu i bobl gyfathrebu yn ganolog.

Dywedodd SC mai llinell gymorth caethwasiaeth fodern y DU yw'r unig ganolfan sydd ar gael ar hyn o bryd.

Dywedodd NP y gellid defnyddio canolfan yn yr ystyr ehangaf. Mae angen adnoddau canolog y gall sefydliadau gael mynediad atynt er mwyn iddynt gael y wybodaeth ddiweddaraf a dysgu am yr arferion gorau. Dylid cronni adnoddau er mwyn codi ymwybyddiaeth ar Facebook, a dylid defnyddio hysbysebu i helpu'r broses hon.

Dywedodd KAW fod negeseuon trydar yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd, a bod rhanddeiliaid yn lledaenu'r negeseuon hyn yn llwyddiannus. Dywedodd KAW fod y gwaith o sicrhau cyllid ar gyfer canolfan ganolog, gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, yn gyfyngedig ar hyn o bryd.

Dywedodd KAW fod y 12 thema sy'n gysylltiedig â chaethwasiaeth yn hwyluso'r broses o godi proffil meysydd allweddol caethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl ar gyfryngau cymdeithasol.

Dywedodd SC fod gwefan Byw Heb Ofn a'r Uned Gaethwasiaeth Fodern yn cael eu defnyddio i gronni adnoddau ar hyn o bryd. Mae Crimestoppers Cymru yn gwneud gwaith gwych, fel y mae pob sefydliad o amgylch y bwrdd.

Dywedodd NP fod Twitter yn llwyfan gwych ar gyfer siarad â chynulleidfa agored sydd eisoes yn ymgysylltu â'r materion dan sylw. Mae Facebook yn llwyfan gwych ar gyfer siarad ag aelodau'r cyhoedd nad ydynt, o bosibl, yn ymwneud â gwleidyddiaeth neu ymgyrchoedd gwleidyddol.

Yng nghyd-destun 18 Hydref, dywedodd MM y gall yr holl sefydliadau alinio a chydlynu mentrau ei gilydd.

Dywedodd KAW y bydd y grŵp arweinyddiaeth yn cydlynu digwyddiadau ac yn ymgyrchu mewn perthynas ag wythnos atal caethwasiaeth.

Dywedodd SC fod y llinell gymorth ar gaethwasiaeth fodern ar fin lansio ap ar gyfer ffonau clyfar. Nod yr ap yw helpu pobl i adnabod arwyddion caethwasiaeth fodern a chaniatáu iddynt adrodd yn eu cylch.

Gofynnodd JW i'r grŵp gytuno yn y cyfarfod y byddai is-bennawd a negeseuon cydlynol yn cael eu cyhoeddi ym mis Hydref, yn ogystal ag ymgyrch Thunderclap.

Gellir cynnal cyfarfod nesaf y grŵp trawsbleidiol yn gynnar ym mis Medi, a hynny er mwyn cytuno ar is-bennawd a negeseuon ar gyfer wythnos atal caethwasiaeth.

Dywedodd NP y byddai hwn yn amser da i ddefnyddio Gweinidogion y Llywodraeth, ac yn amser da iddynt ledaenu'r neges.

Dywedodd RA y byddai gan Connect Gwent adnoddau ychwanegol i ymdrin â chaethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl.